

GWERTHUSO SWYDDI GIG CYMRU - CANLLAW ARFER DA

Gwerthuso Lleol: Canllaw Cam wrth Gam

Mae gwerthuso lleol yn cymryd llawer mwy o amser na pharu swyddi, felly mae'n bwysig bod yn siŵr bod gwerthusiad lleol yn angenrheidiol cyn dechrau'r broses.

Bydd y rhan fwyaf o swyddi'r GIG yn cyfateb i broffil cenedlaethol, felly ni fydd angen eu gwerthuso'n lleol.

Mae rhai achosion pan fydd angen gwerthuso swyddi, gan gynnwys:

- Y rhai nad oes proffil cenedlaethol ar eu cyfer oherwydd eu bod yn unigryw neu'n sylweddol wahanol lle bynnag y maent yn digwydd, er enghraifft swyddi mewn meysydd arbenigol megis TG neu gysylltiadau cyhoeddus.
- Swyddi pan wnaed ymgais i'w paru ag un neu fwy o broffiliau cenedlaethol, ond ni fu hyn yn bosibl, er enghraifft rolau clinigol ac anghlinigol anarferol a/neu arbenigol iawn yn y GIG.

Gwerthusiad Lleol o'r dechrau i'r diwedd

Cam	Gweithgaredd
Cam un	Cwblhewch yr holiadur dadansoddi swyddi (JAQ) • Mae deiliad y swydd yn cwblhau'r holiadur dadansoddi swyddi cyn belled ag y bo modd, gan geisio cymorth gan ei reolwr llinell, goruchwyliwr, neu gydweithwyr. • Cyflwynir y ddogfen hon ar ffurf drafft cyn y cyfweiliad i'r dadansoddwyr swyddi.
Cam dau	Cyfweiliad dadansoddi swydd Mae deiliad y swydd, ei gynrychiolydd ochr staff (os oes angen) a rheolwr yn cael eu cyfweild gan ddau ddadansoddwr swyddi hyfforddedig, un yn cynrychioli rheolwyr ac un yn cynrychioli ochr y staff. Nod y cyfweiliad yw gwirio, cwblhau, gwella a dilysu'r holiadur dadansoddi swyddi drafft trwy: • Wirio bod cyfarwyddiadau'r holiadur dadansoddi swyddi wedi'u dilysu yn gywir. • Llenwi gwybodaeth ac enghreifftiau pan nad yw cwestiynau gofynnol wedi'u hateb neu pan nad oes ateb digonol. • Gwirio atebion cwestiynau caeedig yn erbyn yr enghreifftiau a roddwyd a'r datganiad o ddyletswyddau'r swydd.

Cam tri	Cymeradwyo holiadur dadansoddi swyddi • Mae'r holiadur dadansoddi swyddi drafft diwygiedig yn cael ei wirio gan y rheolwr llinell neu oruchwyliwr ac yna'n cael ei gymeradwyo gan ddeiliad y swydd, rheolwr llinell neu oruchwyliwr a'r ddau ddadansoddwr swyddi • Os oes unrhyw wahaniaeth barn rhwng deiliad y swydd a'r rheolwr llinell ynglŷn â'r wybodaeth ar yr holiadur dadansoddi swyddi, dylid datrys hyn, gyda chymorth y dadansoddwyr swyddi ac, os oes angen, drwy gyfeirio at gofnodion ffeithiol, dyddiaduron neu gyfwerth. • Dylai unrhyw anghytundebau mwy sylfaenol e.e., ynghylch dyletswyddau neu gyfrifoldebau'r swydd, fod yn brin iawn a dylid ymdrin â nhw dan weithdrefnau lleol presennol gan gynnwys, os oes angen, y weithdrefn gwyno
Cam pedwar	Gwerthusiad o'r holiadur dadansoddi swyddi Mae'r holiadur dadansoddi swyddi y cytunwyd arno ac a gymeradwywyd yn cael ei ystyried gan banel gwerthuso ar y cyd (sy'n cynnwys pedwar aelod) gan ddefnyddio system Gwerthuso Swyddi CAJE i gofnodi'r penderfyniadau a wnaed. Mae'n rhaid i'r panel ystyried yr holl wybodaeth am y swydd i bennu lefelau ffactor fel y disgrifir ym mhennod 5 y Llawlyfr Gwerthuso Swyddi. Bydd hyn yn cynnwys: • Dilysu atebion y cwestiwn caeedig yn erbyn yr enghreifftiau a'r datganiad o ddyletswyddau'r swydd. Dylai'r broses hon fel arfer fod yn un syml, bron yn awtomatig. • Dadansoddi a gwerthuso'r wybodaeth gaeedig a phenagored ynghylch y ffactorau hynny pan nad yw gwerthusiad awtomatig yn bosibl. • Lle bo angen yn unig, gofyn am wybodaeth bellach gan y dadansoddwyr swyddi a/neu ddeiliad y swydd, pan fo'r wybodaeth yn annigonol. • Yn y pen draw, gallai hyn olygu anfon holiadur dadansoddi swyddi sydd wedi'i gwblhau a/neu wedi'i ddadansoddi'n wael yn ôl at ddeiliad y swydd a dadansoddwyr swyddi i ailadrodd camau dau a thri uchod. • Yn fwy cyffredin, gallai olygu gofyn i ddeiliad y swydd neu'r rheolwr llinell am ddarn penodol o wybodaeth i ddatrys ymholiad ar y ffin rhwng categorïau cwestiynau neu lefelau ffactor. • Gwirio cysondeb y gwerthusiad dros dro am gysondeb ar sail ffactor wrth ffactor a chyfanswm sgôr, yn erbyn proffiliau cenedlaethol a gwerthusiadau lleol eraill. • Mae'n rhaid i'r panel gwerthuso gwblhau a nodi'r wybodaeth i CAJE yn drylwyr, gan gofio y bydd yr adroddiad gwerthuso ar gael i'r rheolwr a deiliad y swydd rhag ofn y ceir ymholiad.

Cam pump	Gwirio cysondeb Mae'n rhaid i werthusiadau lleol fod yn destun gwirio cysondeb cyn y bydd unrhyw ganlyniad yn cael ei ryddhau i ddeiliad y swydd a'i reolwr llinell. • Os bydd y panel gwirio cysondeb yn canfod unrhyw anghysondeb amlwg neu os bydd ganddynt unrhyw bryderon am y gwerthusiad, dylid cyfeirio'r rhain yn ôl at y panel gwreiddiol i'w hailystyried. • Dim ond ar ôl i'r panel gwirio cysondeb gytuno ar y canlyniad y gellir ei ryddhau. • Gellir rhoi'r adroddiad gwerthuso llawn i ddeiliad y swydd a'i reolwr gan gynnwys rhesymeg esboniadol.
Cam chwech	Cais am adolygiad Gall deiliad(deiliaid) y swydd ofyn am adolygiad o fewn tri mis i gael eu hysbysu o'u canlyniad ac mae'n rhaid iddynt gyflwyno tystiolaeth o ran pam maent yn anghytuno â'r canlyniad. Ystyrir hyn gan banel adolygu, a all gadarnhau'r canlyniad neu gadarnhau canlyniad gwahanol. Mae'n rhaid i bob canlyniad adolygu fynd trwy'r broses gwirio cysondeb eto cyn hysbysu deiliad(deiliaid) y swydd a'u rheolwr llinell.

Ffynhonnell: Grŵp Gwerthuso Swyddi Cyflogwyr y GIG (Mawrth 2020) <https://www.nhsemployers.org/pay-pensions-and-reward/job-evaluation/step-by-step-to-local-evaluation>